

# DOLEN Y TAB 84

3–4 Rhagfyr 2021

## Oedfa Gymun Bore Sul 5 Rhagfyr

Yng ngofal y Parchedig Eirian Rees,  
Huw Roberts a Sylvia Davies.

**Cofiwch gofrestru erbyn 6 o'r gloch  
nos Wener os am fynychu'r cwrdd!**

## OEDFAON MIS RHAGFYR

- 12 Gwasanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul gyda pharti iddynt i ddilyn.
- 19 Oedfa gyda'r Twmiaid ac aelodau o'r gynulleidfa – cerddi, ambell gân ac atgofion Nadoligaidd.

Y Twmiaid fydd yng ngofal yr oedfa ar y Sul olaf cyn y Nadolig, ond byddai'n braf cael rhai cyfraniadau byr o'r gynulleidfa i ychwanegu at yr oedfa. Oes gyda chi gerdd, darlenniad neu gân fyddai'n gweddu i'r Sul? Byddai'n dda iawn clywed gennych.

Diolch yn fawr: [geraintrees@hotmail.com](mailto:geraintrees@hotmail.com)

*Ni chynhelir oedfa fore Sul 26 Rhagfyr.*

## Hefyd ddydd Sul 5 Rhagfyr

**12:00 Oedfa Radio Cymru** Ar ail Sul yr Adfent, ymunwn gyda Meurig Llwyd mewn oedfa o Iwerddon.

**12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg**  
John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

**19.30 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol**  
Detholiad hyfryd o garolau a chaneuon y Nadolig o Eglwys Crist, Y Bala, ar ail Sul yr Adfent.

## E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

## Rhodd o Ynys-y-bwl

Mae'r eglwys wedi derbyn rhodd hael iawn yn ddiweddar gan Gapel y Tabernacl, Ynys-y-bwl, sef pedwar hambwrdd o wydrau cymun. Yn anffodus, penderfynwyd cau eglwys yr Annibynwyr Cymraeg yno oherwydd mai nifer fach o aelodau oedd yn weddill i gynnal yr achos. Byddwn yn cysylltu â'r Ysgrifenyddes i ddiolch iddynt am eu rhodd.

# Cwrdd Blynyddol

Wedi cynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn rhithiol y llynedd, profiad braf i'n Cadeirydd, Edwyn Evans, eleni oedd medru croesawu'r aelodau wyneb-yn-wyneb i'r cwrdd ar fore Sul olaf Tachwedd. Yn ei adroddiad, cyfeiriodd at yr heriau digynsail a brofwyd dros gyfnod o ddeunaw mis, ond ar waetha hynny llwyddwyd i wireddu nifer o gynlluniau newydd cyffrous megis yr ardd gymunedol a phenodiad Eleri Mai fel ein Swyddog Ieuenticid a Chymunedol. Diolchodd am gyfraniad y rhai fu'n gyfrifol am sicrhau nawdd hael i'r cynlluniau hyn. Hefyd, er bod drysau'r Tabernacl ar gau ar gyfer ein haddoliad arferol, fe drefnwyd oedfaon rhithiol graenus a bendithiol yn ddi-dor ar foreau Sul i lenwi'r bwlch yn y ddarpariaeth ysbrydol. Yn y cyfamser, gweddnewidiwyd y capel i fod yn hwb dyngarol prysur tu hwnt oedd yn cyflenwi dillad a chelfi cartref i gwrdd ag anghenion y difreintiedig, a chasglwyd swm sylweddol o arian i gynnal y banc bwyd ac ymgyrchoedd elusennol eraill.

## Adroddiad y Trysorydd

Yn ei gyflwyniad, adroddodd Arwyn Jones fod £90,000 mewn llaw yn y banc ar ddiwedd 2020. Yn ystod y flwyddyn gwelwyd gostyngiad yn y derbyniadau, a chynnydd sylweddol yn y costau cynnal a chadw; disgwylir hefyd y bydd cynnydd pellach mewn costau tanwydd yn y flwyddyn newydd ynghyd â chostau cynnal y cynllun Arloesi a Buddsoddi. Nododd Arwyn nad oedd cyfanswm cyfraniadau'r aelodau at yr achos wedi cynyddu dros y ddeng mlynedd ddiwethaf, ac apeliodd ar yr aelodau i ystyried lefel eu cyfraniadau i gostau'r achos. Ond ar yr ochr gadarnhaol roedd cyfanswm y cyfraniadau at achosion da yn £13,100 o'i gymharu â £3,800 yn 2019 – ymateb rhyfeddol i ymgyrchoedd y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol. **[Am ragor o wybodaeth am y sefyllfa ariannol, gweler neges bwysig Arwyn ar dudalen 2.]**

## Enwebu Ymddiriedolwyr / Cyfarwyddwyr

Cadarnhawyd y ddau enwebiad a dderbyniwyd i fod yn Ymddiriedolwyr newydd, sef Gwion Evans a Rhian Eyres, a diolchwyd iddynt am eu parodrwydd i wasanaethu'r eglwys fel aelodau o'r Bwrdd. Hefyd, croesawyd yn ffurfiol barodrwydd Edwyn Evans i ymestyn ei dymor fel Ymddiriedolwr am flwyddyn arall. Talwyd diolch i'r ddau aelod o'r Bwrdd roedd eu tymor yn dod i ben yn y Cwrdd Blynyddol, sef Bethan Herbert a Mike West, am eu cyfraniadau gwerthfawr iawn i drafodaethau'r Bwrdd ac am eu holl gyfraniadau eraill i waith yr eglwys.

## Elusennau Lleol 2022

Cadarnhawyd mai'r elusennau lleol fydd yn derbyn nawdd y Casgliadau Elusennau (amlenni brown) yn 2022 fydd: Cwtch, Cymorth i Ferched Cymru, Gofalwyr Ifanc RhCT, Carmel Blaenllechau a 2wish. Cyn enwi'r elusennau, diolchodd John Llew Thomas, Cadeirydd y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol, i'r aelodau am eu cyfraniadau hael iawn i'r ymgyrchoedd elusennol eleni a diolchodd hefyd i aelodau'r Gweithgor am eu holl waith yn ystod y flwyddyn i gynorthwyo trigolion anghenus y gymuned.

# NEGES AMSEROL ARWYN

*A ninnau ar drothwy blwyddyn newydd,  
mae gan Arwyn, ein Trysorydd, neges  
bwysig i'w throsglwyddo:*

## Cyfraniadau

Yn y Cwrdd Blynyddol soniais fod costau cynnal y capel yn codi'n flynyddol a gallwn ddisgwyl costau ychwanegol dros y blynyddoedd nesaf i gynnal ein Cynllun Arloesi a Buddsoddi. Felly, fe apeliais ar yr aelodau i roi ystyriaeth i hyn wrth benderfynu ar lefel eu cyfraniadau tuag at yr achos o hyn allan.

## Casgliadau 2021

I'r rhai hynny ohonoch sy'n arfer cyfrannu'n rheolaidd i gronfa'r Tabernacl (amlenni gwyn) a/neu'r gronfa elusennau (amlenni brown) drwy'r platiau casglu, hoffwn eich atgoffa y byddwn yn cau'r llyfrau eleni ar ddydd olaf y flwyddyn. Fe fydd modd i chi gyflwyno eich cyfraniadau ar y platiau casglu a osodir yn y cyntedd yn ystod yr oedfaon ym mis Rhagfyr, neu anfon sic wedi'i chyflwyno i **Capel y Tabernacl Cyf.** at:

**Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU**

Os byddwch yn anfon ataf, rhowch y sic mewn amlen wen neu frown, gan nodi eich rhif aelodaeth. Fel arall, gallwch wneud trosglwyddiad banc i gyfrif y capel gan nodi Casgliad Amlenni Gwyn neu Casgliad Amlenni Brown, ynghyd â rhoi'ch rhif aelodaeth yn y blwch sy'n gofyn am gyfeirnod:

Enw'r cyfrif: **Capel y Tabernacl Cyf.**

Cod didoli: **30 – 96 – 72**

Rhif y cyfrif: **03607499**

**Diolch**

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org).

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at:  
07710 237327 / 01443 225205 / [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)



**Y Ganolfan,  
Capel Tabernacl** **10.00-11.30**

**Dydd Llun**  
**Tachwedd 1af, 15fed, 29ain, Rhagfyr 13eg**



**Croeso i rieni, gwarchodwyr, Nain, Tad-cu a'i  
plant/wyrion/wyresau**

**Cyfle i bawb gymdeithasu, chwarae gyda theganau ynghyd  
a chael ychydig o fwyd sy'n addas i blant.**

## CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG

### **Cwrdd Chwarter Rhithiol**

7 o'r gloch Nos Fercher, 8 Rhagfyr 2021

## **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Hefyd cyflwyniad gan  
Y Parchedig Dylan Rhys Parry,  
Pen-y-bont ar Ogwr a Phorth-cawl  
a chyd-olygydd *Cristion*

## **Cynlluniau'r *Cristion***



I dderbyn manylion dolen Zoom i ymuno yn y cwrdd,  
anfonwch e-bost at: [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)



**Coffi a Sgwrs**  
**Canolfan y Tabernacl**

**Bob bore Mawrth**  
**10.30-12.00**

**Efail Isaf**

**Croeso i bawb**

# FFAIR NADOLIG EFAIL ISAF EFAIL ISAF CHRISTMAS FAYRE

SUNDAY 12TH DECEMBER – SUL, RHAGFYR 12FED

3 PM  
- 5 PM

## NEUADD Y PENTREF

Stondinau crefft o ansawdd a chacennau

## CANOLFAN Y CAPEL

Eitemau bron yn newydd a bric a brac

## Y CAPEL

Arddangosfa o'r gystadleuaeth  
ffotograffiaeth lleol

## AWYR AGORED

Ffwrn pizza, gwin cynnes a cherddoriaeth

## VILLAGE HALL

High quality craft and cake stalls

## CHAPEL VESTRY

Nearly new and bric a brac

## CHAPEL

Exhibition of the local  
photography competition

## OUTDOORS

Pizza oven, mulled wine, music

## GORYMDAITH LLUSERNAU DRWY'R PENTREF LANTERN PARADE THROUGH THE VILLAGE

O NEUADD Y PENTREF **5 PM** FROM THE VILLAGE HALL

DERBYNIR TEISENNAU A BRIC A BRAC O ANSAWDD I'W GWERTHU  
DONATIONS OF CAKES AND GOOD  
QUALITY BRIC A BRAC WILL BE  
GRATEFULLY RECEIVED.

OS YDYCH YN GALLU CYNNIG LLAW  
AR Y DYDD PLIS CYSYLLTWCH GYDA  
CAROLINEREES2@HOTMAIL.COM  
WOULD BE PLEASED TO HEAR FROM  
YOU IF YOU ARE ABLE TO HELP ON  
THE DAY.



COVID-19

BYDDWN YN DILYN CANLLAWIAU LLC, GAN GYNNWYS CADW PELLTER DOETH | WE WILL FOLLOW THE CURRENT W6 GUIDANCE, INCLUDING SOCIAL DISTANCING.